7. Y CAWR COCH A'R GORACHES WEN (Nadolig)

Cyfarfu Cawr Coch â Coraches Wen yn ysgol y sêr. Roeddent yn yr un dosbarth – dwy belen heb dyfu'n llawn â'u bryd ar ddysgu sut i droelli, sut i gynhyrchu gwres, ond yn bwysicaf oll, sut i ddisgleirio. Doedd yr un ohonynt yn arbennig o ddisglair, ond yn gwneud eu gorau ac wedi ychydig gannoedd o flynyddoedd goleuni, llwyddodd y ddau i basio eu holl arholiadau. Roedd yr amser wedi dod i fentro allan i'r bydysawd, a dyna pryd y gwnaethant y penderfyniad mawr. Penderfynodd y ddau weithio ar y cyd – gan ddisgleirio a throelli gyda'i gilydd.

Daethant o hyd i leoliad ymhlith clwstwr bychan o sêr Galaeth y Llwybr Llaethog. Swydd ddigon di-nod oedd ganddynt. Ond roedd Coraches Wen a Cawr Coch yn ddigon hapus. Ymgartrefodd y ddau yno. Aeth oesoedd heibio. A pharhaodd y ddau â'r dasg feunyddiol o ddisgleirio.

Felly, gallwch ddychmygu'r sioc a gafodd Coraches Wen un dydd pan ymwelodd y cyfarwyddwr â hi. Ddigwyddodd dim byd syfrdanol – dim clec enbyd na golau llachar. Dim ond llais – tawel ond clir. 'Coraches Wen,' dywedodd y llais, 'rwyf am i ti greu ffrwydrad.'

Wel am beth i'w ofyn! Cafodd Coraches Wen ei haddysgu am ffrwydradau yn yr ysgol, ond roedd hynny amser maith yn ôl a doedd hi'n sicr erioed wedi disgwyl gorfod cyflawni hynny. Doedd ganddi ddim syniad ble i ddechrau.

'Fe wnaiff Cawr Coch dy helpu,' aeth y llais yn ei flaen.

Nawr roedd Coraches Wen wastad wedi bod â ffydd yng ngallu'r cyfarwyddwr. Felly, er fod ganddi lu o gwestiynau yr hoffai eu gofyn, nid oedd am ddadlau.

'O'r gorau,' meddai.

'Diolch i ti – o, ie Coraches Wen . . .'

'Ie?'

'Rwyt ti'n seren arbennig iawn.'

Seren arbennig iawn? Câi Coraches Wen gryn drafferth credu hynny. Sêr arbennig oedd rhai fel Siriws a Polwcs a gawsai enwau arbennig gan drigolion y ddaear. Eto, roedd yn braf gwybod fod y cyfarwyddwr yn ei hystyried yn werthfawr.

Roedd wrthi'n ystyried yr hyn a glywsai pan ddychwelodd Cawr Coch wedi cwblhau ei droelliad diweddaraf.

'Sut all seren ddwyran fel ni greu ffrwydrad?' gofynnodd.

'Mae'n bur syml a dweud y gwir. Mae'r seren leiaf yn sugno egni ychwanegol oddi wrth y seren fwyaf nes bod tymheredd ei chorff yn codi a chodi nes – CHWAP! Mae'r cyfan yn chwythu i fyny.'

'Fe wela i,' meddai Coraches Wen.

'Pam wyt ti'n holi?'

Fe eglurodd. O diar! Gynted ag y clywodd Cawr Coch yr hyn roedd y cyfarwyddwr eisiau, roedd yn amharod i helpu a chollodd ei dymer. Gwylltiodd yn gacwn.

'Mae'n anodd credu dy fod yn fodlon ystyried y fath beth. Oes gen ti unrhyw syniad pa mor beryglus yw hyn? Mae sêr yn marw mewn ffrwydradau. Iawn, efallai y down ni drwyddi. Ond byddwn yn sicr o gael ein gwahanu. Efallai na chawn fod gyda'n gilydd byth eto.'

'Ti'n gwybod y byddwn i'n casáu hynny,' llefodd Coraches Wen. 'Ond . . .'

'Ond beth?'

‘Fedrwn ni ddim dweud “na” wrth y cyfarwyddwr.’

‘Mi fedra i,’ atebodd Cawr Coch, a throellodd i ffwrdd yn gandryll.

Ni chawsant erioed ffrae mor ddrwg. Teimlai Coraches Wen ei hunan yn cael ei rhwygo’n ddwy. ‘Y cyfarwyddwr ŵyr orau,’ atgoffodd ei hunan wrth fflachio’n fwy crynedig nag arfer pan glywodd ei lais unwaith eto.

‘Beth sydd o’i le? Pam wyt ti’n grynedig?’

‘Wel . . . hynny yw . . . dech chi’n gweld, dyw Cawr Coch ddim am i ni greu ffrwydrad. A fyddech chi’n gallu gofyn i ryw seren arall?’

‘Ti yw’r un a ddewisais a rhoddais i ti safle arbennig. Lawr ar y ddaear mae gwŷr doeth yn edrych tua’r nef am arwydd. Pan fyddi di’n ffrwydro byddi’n disgleirio filgwaith yn fwy llachar nag arfer. Byddant yn dy weld ac yna’n gwybod ei bod yn amser i weithredu.’

‘Dynion yn fy ngweld *i*!’ Roedd hyn yn anhygoel.

‘Byddi’n ymddangos ddwywaith,’ aeth y cyfarwyddwr yn ei flaen. ‘Bydd yr ymddangosiad cyntaf yn peri iddynt ddechrau chwilio a’th ail ymddangosiad yn dangos iddynt ble i edrych. Rhwng y ddau ymddangosiad bydd Cawr Coch fel llen, yn eu rhwystro rhag dy weld.’

‘Ond dyna’r holl broblem. Wnaiff o ddim cytuno.’ Dechreuodd Coraches Wen grynu eto.

‘Rwyf wedi cael gair bach ag ef. Rwy’n credu y bydd yn fwy rhesymol nawr. Edrych, dyma fe ar y gair.’

Ar unrhyw adeg arall byddai Coraches Wen wedi cael ei themtio i ofyn i’r cyfarwyddwr sut y bu’n bosibl iddo gael sgwrs â hithau a Cawr Coch yr un pryd. Ond yr ennyd hon allai hi ddim disgwyl cael gwybod a oedd Cawr Coch mewn gwirionedd wedi newid ei feddwl.

‘Wel?’ meddai hi.

‘Wel dy hunan,’ winciodd yn ôl. A gallai ddweud oddi wrth ei lais nad oedd yn flin mwyach.

‘Gwn fod creu ffrwydrad yn beryglus,’ meddai hi. ‘Ond rwy’n sicr fod y cyfan yn ddiogel o dan reolaeth y cyfarwyddwr.’

‘Gwranda, fe wnes i gamgymeriad. Doeddwn i ddim yn deall. Ef yw’r un sydd mewn perygl. Mae’r cyfarwyddwr am droi’n *faban*

a mynd i lawr i'r *ddaear.'*

Am ennyd wyddai Coraches Wen ddim beth i'w ddweud . . . roedd fel petai mellten wedi ei tharo. Y cyfarwyddwr. *Yn faban.* Roedd babanod yn gwbl ddiymadferth. Pwy fyddai'n edrych ar ei ôl? Pwy fyddai'n ei amddiffyn? Clywsai sawl stori am drigolion creulon y ddaear.

'*Babi!'* ebychodd. 'Ond beth os yw . . . ?'

'Does dim "beth os" amdani. Fe ŵyr y cyfarwyddwr yn union yr hyn mae am ei wneud. Wyt ti'n cofio'r broffwydoliaeth yna, honno glywson ni yn yr ysgol, am blentyn yn cael ei eni i wyryf?'

'Ie.'

'Wel dyna sydd ar ddigwydd.' Troellodd Cawr Coch tuag ati. 'Dyma'r ddrama fwyaf rhyfeddol ers y greadigaeth – ac rwyt ti a finnau'n sêr y perfformiad.

HYD: 4 munud

NEGES Pan ddaeth Duw i'r byd, roedd gan bobl gyffredin ran i'w chwarae. Mae ganddo swyddogaeth arbennig i bob un ohonom yn ei deyrnas heddiw.

DARLLEN: Mathew 1: 18–25